YSGOL Y LAWNT

Blwyddyn Ysgol
2023—2024

Newyddiadur y Llywodraethwyr

Gair gan y Cadairyddes

Adroddiad Blynyddol



Pwy 'di Pwy

Ar y corff

Llywodraethu

Enw	Safle
Sharon Davies	Pennaeth
Christine Chater	Cadairyddes
William D Evans	Is gadeirydd
Kath Scott	Dirprwy Bennaeth
Claire Ingram	ALl
Janet Williams	Cynrychiolydd cymunedol
Catrin Flanagan	Cynrychiolydd cymunedol
Katherine Hallam	Rhiant
Angharad King	Rhiant
Samantha Theophilus	Rhiant
Erin Edwards	Rhiant
Joanne Vest	Arsylwr

Dillad Dwywaith Ysgol y Lawnt







Llongyfarchiadau Ysgol y Lawnt am lawnsio'r

Siop Cyfnewid!

Mae disgyblion Ysgol y Lawnt bob amser yn chwilio am ffyrdd i achub yr amgylchedd a helpu eraill! yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Pwyllgor Eco wedi sefydlu siop gyfnewid yn ein Caffi Clic a Chlonc. Maent yn annog rhieni a disgyblion i roi eitemau a ddefnyddir, fel gwisgoedd ysgol, gwisgoedd addysg gorfforol, esgidiau, ac esgidiau pêl-droed. Mae'r fenter hon wedi tyfu drwy gydol y flwyddyn ac erbyn hyn mae gennym ni, deunyddiau ysgrifennu, cotiau gaeaf, bocsys cinio, DVDs, llyfrau a llawer mwy. A'r peth gorau, rydym yn helpu achub ein hamgylchedd ac mae'r eitemau yn cael ei hail gylchu yn rhad ac am ddim, felly mae pawb yn elwa!

Da iawn Ysgol y Lawnt!

Tu fewn .....

Beth sy'n digwydd yn ysgol eich plentyn
Gwybodaeth i rieni / targedau / presenoldeb / cyllideb/ dyddiadau tymhorau
Celebration and achievements

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Cafodd Ysgol y Lawnt ei harolygu gan Estyn o Hydref 17eg—20fed 2022.
Cyhoeddodd Estyn eu hadroddiad ar 19eg o Ragfyr 2022.
Dyma farn Estyn am Ysgol y Lawnt :

Mae Ysgol Y Lawnt yn gymuned ddysgu lwyddiannus sy'n dathlu cynnydd a chyflawniad yr holl ddisgyblion yn arbennig o effeithiol

Mae gan yr athrawon a'r cynorthwywyr dysgu ddisgwyliadau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion o ran cyflawniad ac ymddygiad, ac maent yn eu cefnogi i ddatblygu eu medrau'n llwyddiannus

Mae ethos yr ysgol wedi ei seilio'n gadarn ar weledigaeth gytûn, sef hyrwyddo Cymreictod, cwrteisi a chyfrifoldeb

Mae'r Caffi Clic a Chlonc wythnosol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iawn i'r holl ddisgyblion yn eu tro i ddatblygu eu medrau a chymhwyso medrau bywyd go iawn trwy weithio gydag aelodau'r gymuned, gan gynnwys rhieni'r ysgol. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn llunio bwydlenni, coginio bwyd i'w weini, a delio ag arian wrth werthu'r cynnyrch ac yna dadansoddi'r elw .

Derbyniodd Ysgol y Lawnt ddau argymhelliad a gafodd eu rhoi ar waith yng nghynllun datblygu'r ysgol.

A1 Gwella medrau darllen Cymraeg disgyblion

A2 Rhannu arfer orau yr addysgu ar draws yr ysgol

Hoffai'r Corff Llywodraethol longyfarch Mrs Davies a'i holl staff ar arolygiad llwyddiannus iawn a'r profiadau dysgu rhagorol y mae'r disgyblion yn eu derbyn yn gyson.







Uwchben— Disgyblion Ysgol y Lawnt yn dathlu diwrnod y llyfr.
Chwith - Disgyblion yn dathlu dydd miwsig Cymru.
Dde — Disgyblion blwyddyn 3 yn mwynhau gwersi Ukulele.

DATHLU 70 MLYNEDD
O
ADDYSG GYMRAEG

Ysgol y Lawnt is proud to announce that it is Celebrating 70 years of Welsh Education in the Rhymney Valley during 2024—2025.

Welsh education originated in the Rhymney Valley in 1951, where a small voluntary Welsh school was held on a Saturday morning. During the Autumn term of 1955 the first Welsh class opened for pupils in the Middle Rhymney School. From this acorn grew Ysgol y Lawnt as we know it today!

Over the years, Ysgol y Lawnt has grown in numbers and benefitted from multiple school buildings that have accommodated the pupils. Pupils who attend Ysgol y Lawnt are immersed in the Welsh language from the onset in Nursery through to year 6. School also benefits from the local Cylch Meithrin, set within the village where staff provide amazing opportunities for pre-school pupils to learn the Welsh language through song and play.

Caerphilly CBC are proposing a new school for Ysgol Y Lawnt and Upper Rhymney Primary. Further information can be found on Caerphilly CBC website.

The Relocation of Ysgol Y Lawnt and Upper Rhymney Primary School.

The proposal seeks to create a sustainable Net Zero Carbon school building with shared facilities, to accommodate Ysgol Y Lawnt, Upper Rhymney Primary School and Community use. The two schools will continue to provide both Welsh and English Medium Primary education and remain as separate entities, situated within the new dual purpose building.



Ysgol y Lawnt are currently arranging celebrations for the Summer of 2025.

Diary dates:

18.06.2025 - Celebratory show, which will involve all of the pupils.
19.06.2025 - Tea on the Lawn & open afternoon to browse historic memorabilia and meet old friends.
20.06.2025 - Celebratory party for the pupils.

Swyddi gwag:

Ar hyn o bryd mae gennym un swydd wag ar gyfer llywodraethwr mân awdurdod ag un swydd wag i riant ar y Corff Llywodraethu. Penodir llywodraethwyr am gyfnod o bedair blynedd.

Bydd rhieni'n cael gwybod gan yr ysgol am y swydd wag ar y Corff Llywodraethu a gwahoddir ymgeiswyr i gyflwyno eu henw.

Dylai pob rhiant sy'n pleidleisio dros ymgeisydd ddychwelyd eu pleidleisiau i'r ysgol mewn amlen wedi'i selio. Yna caiff y rhain eu hanfon at Gymorth i Lywodraethwyr yn CCBC i'w cyfrif.

Nid oes gan yr ysgol gyfrifoldeb dros gyfrif pleidleisiau.

Chairlady

Mrs Christine Chater

Ysgol y Lawnt,

Surgery Hill,

Rhymney

Caerphilly

NP22 5LS

CLERK

ANNA LEWIS

Ysgol y Lawnt

STATWS CORFF LLYWODRAETHU A THYMOR DOD I BEN

ENW	STATWS	TYMOR DOD I BEN
Sharon Davies	Pennaeth	N/A
Christine Chater	Cadairyddes	N/A
William D Evans	Is gadeirydd	N/A
Kath Scott	Dirprwy Bennaeth	17.05.2025
Janet Williams	Cynrychiolydd cymunedol.	28.09.2025
Katherine Hallam	Cynrychiolydd cymunedol	02.03.2025
Catrin Flanagan	Cynrychiolydd cymunedol	02.03.2025
Angharad King	Rhiant	07.03.2028
Samantha Theophilus	Rhiant	07.03.2025
Erin Edwards	Rhiant	07.03.2025
Claire Ingram	ALl	N/A
Joanne Vest	Arsylwr	N/A

Cyfeiriad Ysgol a Gwybodaeth Bwysig

Surgery Hill,
Rhymney,
Caerphilly,
NP22 5LS
01685 840285
YsgolYLawnt@sch.caerphilly.gov.uk

Teaching staff and responsibilities

Enw gwreiddiol y dosbarth / class original name.	Enw'r dosbarth Class name.	Athro / Athrawes Teacher
Meithrin / Nursery	Blodau menyn	Mrs Rudd / Miss Llewellyn/Mrs Davies
Derbyn / Reception	Llygaid y dydd	Mrs Green, Mrs Rosser, Mrs O'Brien, Miss Leonard
Blwyddyn 1 / year 1	Clychau'r gog	Miss Evans a Miss Vest
Blwyddyn 2 / year 2	Lili	Mrs Powell, Miss Pearce
Blwyddyn 3 / year 3	Cenhinen bedr	Mrs Watkins a Mrs O'Brien
Blwyddyn 4 / year 4	Briallu	Miss Lewis
Blwyddyn 5 / year 5	Eirlys	Miss Poulton
Blwyddyn 6 / year 6	Meillion	Miss Scott
ALNCo		Mrs Kinnear
Ymyrraeth / intervention	Lafant	Mrs Powell
PPA	Mrs Kinnear Miss Pearce	

CCB—Nid yw'n ofynnol bellach i'r Corff Llywodraethol gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni i drafod yr adroddiad. Mae'r gofyniad hwn wedi'i ddisodli gan ddyletswydd ar y CLl i gynnal cyfarfod â rhieni ar ôl

Cwricwlwm

Mae Ysgol y Lawnt yn cynnig cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol sy'n ysgogi datblygiad academaidd, moesol, ysbrydol a chymdeithasol pob plentyn. Mae disgyblion yn yr adran babanod yn cael eu trochi yn yr iaith Gymraeg. Cyflwynir Saesneg yn flwyddyn 3. Rydym yn annog disgyblion i siarad Cymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Pan fydd plentyn yn dechrau yn yr ysgol, caiff cyfarwyddiadau eu hail-adrodd yn Gymraeg a Saesneg nes bod y plentyn yn hyderus i siarad Cymraeg.

Mae addysg yn esblygu'n gyson ac mae cwricwlwm newydd Cymru yn statudol ers Medi 2022. Mae Ysgol y Lawnt wedi dylunio cwricwlwm pwrpasol "Cyfoethion Ein Cwm" a fydd yn cyfoethogi ag addysgu disgyblion am wybodaeth eu hardal leol, ynghyd ag atgyfnerthu sgiliau sylfaenol a fydd yn galluogi'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol, gydol oes.

Mae themâu a phrosiectau wedi'u cynllunio'n ofalus er mwyn cwmpasu holl ofynion Cwricwlwm Newydd Cymru.Nod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ynghyd â'r fframwaith cymhwysedd digidol yw sicrhau bod cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn llawn ym mhob agwedd o'u dysgu. Mae pob disgybl yn derbyn targedau personol. Mae targedau realistig ac uchelgeisiol yn cael eu gosod flwyddyn ymlaen llaw ar gyfer disgyblion blwyddyn 6.

Mae noson rhieni yn cael ei chynnal bob tymor i drafod targedau, perfformiad a datblygiad addysgol y disgybl. Cysylltir â rhieni os oes gan eu plentyn anghenion penodol, neu os yw'r ysgol yn sylwi ar newid yn eu personoliaeth / ymddygiad.B ydd Ysgol y Lawnt bob amser yn ymdrechu i hyrwyddo addysg gynhwysol i bob disgyblMae gan yr ysgol amrywiaeth o bolisïau. Mae'r rhain ar gael ar wefan yr ysgol neu mae croeso i rieni weld y rhain yn yr ysgol. https://www.ysgolylawnt.co.uk

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Mae'r Corff Llywodraethol yn ymdrechu i gefnogi a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag ADY. Mae gan bob disgybl broffil un dudalen ac mae'r rhai sydd ag ADY yn derbyn targedau mwy penodol i wella meysydd datblygu. O dan y cod ymarfer ADY newydd, mae'r ysgol ar hyn o bryd yn gweithio'n agos gyda'r ALI i weithredu'r ymarferion newydd. Mae rhieni wedi cael gwybod am newidiadau a fydd yn digwydd rhwng mis Medi 2021 ac Awst 2024—dilynwch y linc am ragor o wybodaeth : Additional learning needs (ALN) system: parents' guide [HTML] | GOV.WALES

Rydym hefyd yn cydnabod disgyblion sy'n 'Fwy Abl a Thalentog' (MAT). Caiff disgyblion eu grwpio'n briodol a gosodir gwaith i herio pob unigolyn.

Gweithgareddau a chyflawniadau

Mudiad yr Urdd

Bu disgyblion o bob oed yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau'r Urdd yn ystod tymor y gwanwyn.

Mae ein staff talentog yn darparu ystod o gyfleoedd i'r disgyblion, mae'r rhain yn cynnwys cystadlaethau chwaraeon, canu, adrodd, coginio actio a chelf. Mae gan yr Urdd gystadleuaeth sy'n addas i bob oed a gallu.

Gweithgareddau Allgyrsiol

Mae'r holl weithgareddau allgyrsiol yn cael eu cynnal ar ddydd Mercher a dydd Iau ar ôl ysgol ar gyfer disgyblion blynyddoedd 1 i 6.

Mae pob clwb yn cael eu rhedeg yn wirfoddol gan staff yr ysgol. Rydym yn hynod ddiolchgar i staff sy'n rhoi o'u hamser eu hunain i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau newydd trwy actio, canu, dawnsio a hefyd trwy amrywiaeth o chwaraeon.

Nid yw pob ysgol mor ffodus ag un ni, mae gennym staff parod i gynnal y gweithgareddau i'r plant eu mwynhau a hefyd mae'r adnoddau hyn o fudd i rieni hefyd.

Gwersi Nofio

Mae pob disgybl Blwyddyn 6 yn elwa o gwrs nofio dwys 3 wythnos yn ystod tymor yr haf. Mae cynnydd rhagorol yn cael ei wneud bob amser yn ystod y sesiynau hyn.

Dathliadau diwedd y flwyddyn 2023

Ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, cynhaliwyd dathliadau ar yr iard.

Mwynhaodd y disgyblion amrywiaeth eang o ddathliadau, a oedd yn cynnwys parti dwr, diwrnod chwaraeon, Gemau, cystadleuaeth dalentau a thaith o gwmpas y byd!

Dewisodd pob dosbarth wlad, dysgodd y disgyblion am draddodiadau o bob cwr o'r byd a dawns o'r wlad roedden nhw wedi bod yn ei hastudio.

Diwedd perffaith i'r flwyddyn.



Cysylltiadau cymunedol

Mae Ysgol y Lawnt yn gweithio'n agos iawn gyda rhieni ac yn annog rhieni i fynychu cyfarfodydd a digwyddiadau a gynhelir gan yr ysgol. Mae PTA rhagweithiol sy'n trefnu ystod eang o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn ac mae hyn yn cael ei gefnogi'n dda iawn.

Gwahoddir pobl o'r gymuned leol ac ehangach i'r ysgol i rannu eu harbenigedd gyda'r disgyblion.

Fel ysgol rydym yn cefnogi digwyddiadau cymunedol.

Mae'r gwasanaethau brys yn chwarae rhan hanfodol ym mywyd yr ysgol. Mae'r heddlu cymunedol yn helpu gyda rheoli traffig. Daw'r gwasanaethau tân i'r ysgol i siarad â'r disgyblion.

Rydym yn

Ysgol Eco

Ysgol Bwyta'n Iach

Ysgol Masnach Deg

Ymwybyddiaeth Awtistig

Diolch i'r holl rhieni am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn. Rydym yn gobeithio eich bod yn mwynhau'r gweithgareddau a threfnwyd gan yr ysgol a'ch bod yn teimlo fel rhan o'r teulu.

Dathliadau

Mae'r ysgol yn dathlu cyflawniadau disgyblion ac maent bob amser yn awyddus i wybod beth mae eich plentyn wedi'i gyflawni y tu allan i'r ysgol.

Anogwch eich plentyn i rannu ei fomentau arbennig gyda'r ysgol.



Canu



Pel Droed



Coginio

Pontio i'r ysgol uwchradd

Mae Ysgol y Lawnt yn gweithio'n agos gydag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Yn ystod y ddwy flynedd cyn i ddisgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd, rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion blwyddyn 5 a blwyddyn 6 ymweld â'r ysgol.

Mae pontio ychwanegol ar gael i ddisgyblion sydd ag anghenion arbennig.

Pob lwc a dymuniadau gorau i ddisgyblion blwyddyn chwech a drosglwyddodd i'r ysgol gyfun ym mis Medi 2023.

Cwricwlwm i Gymru
Cyfoethion ein Cwm

Camau cynnydd 1,2 a 3

Cyrhaeddodd y disgyblion dargedau realistig a osodwyd gan yr athrawon.

Asesiadau Sylfaenol

Cynhaliwyd asesiadau sylfaenol gyda phob disgybl meithrin yn ystod eu chwe wythnos gyntaf yn yr ysgol.

Cynhaliwyd profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yn ystod y flwyddyn academaidd.

Targedau a bennwyd gan y Corff Llywodraethu am y tair blynedd nesaf.

Mae cysylltiad agos rhwng y targedau a bennwyd gan y Corff Llywodraethu â safonau mewn llythrennedd a rhifedd. Mae targedau hefyd i gynnal a gwella presenoldeb ymhellach yn uchel ar yr agenda. Mae'r Corff Llywodraethol yn herio'r ysgol i sicrhau bod y targedau hyn yn cael eu cyflawni.

Gosod targedau o fewn yr ysgol.

Gosodir targedau unigol ar gyfer gwelliannau ar gyfer pob disgybl bob hanner tymor a chaiff cynnydd ei olrhain a'i fonitro yn unol â hynny.

Diolch

Diolch yn fawr unwaith eto i'r holl staff am eu gwaith caled parhaus yn yr ysgol.

Gweithgareddau Allgyrsiol a Gweithgareddau Chwaraeon

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon ac allgyrsiol.

Rhoddir cyfle i ddisgyblion gymryd rhan mewn pêl-rwyd, pêl-droed, cystadlaethau rygbi, criced, yr Urdd a nofio a drefnir gan yr ysgol.

Gweithgareddau Allgyrsiol

Mae staff yr ysgol yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion.

- Clwb Eco / Celf
- Gemau
- Pêl-droed
- Rygbi
- Pel Rhwyd
- Côr
- Traws Gwlad
- Gwersi Dawns
- Gwersi Cerddoriaeth
- Glee
- Cogurdd

Mae rhagor o fanylion ar gael gan yr ysgol



Prosbectws yr Ysgol

Os oes angen prosbectws ysgol arnoch, ewch i wefan yr ysgol neu cysylltwch â swyddfa'r ysgol i gael copi papur o'n prosbectws.



Gwersi Ysgol:

Sesiynau Bore :

Gwers 1 > 9:00—10.15am

Gwers 2 > 10.35—11.45am

Sesiynau Prynhawn:

Gwers 3 > 12.45—2:00pm

Gwers 4 > 2:15—3:30pm

Mae disgyblion yn mynychu gwasanaeth ysgol 3 gwaith yr wythnos ac yn mynychu gwasanaeth dosbarth ddwywaith yr wythnos



Dwy law yn erfyn
Sydd yn y darlun
Wrth ymyl fy ngwely i
Pob bore a nos
Mae weddi yn dlos
Mi wn er na chlywaf I
Amen

Iesu tirion gwel yn nawr
Blentyn bach yn plygu lawr
Wrth fy ngwendid
Trugarha
Paid am gwrthod Iesu da
Amen

Meithrin, Codi'n 3ir a Chlwb Cwtsh

Mae gennym ddosbarth Meithrin bore. Croesewir disgyblion i'r ysgol y tymor yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed.

Mae'r ysgol yn dechrau am 9.00am ar gyfer y feithrin.

Yn ystod y bore byddent yn gael ffrwyth a llaeth neu dd□r. Bydd y plant yn dysgu ystod o sgiliau ysgrifennu a chyfrif cynnar a bydd amrywiaeth o weithgareddau'n cael eu dysgu i ddatblygu sgiliau echddygol cain a gros.

Mae sesiynau meithrin yn dod i ben am 11.45am.

Cynhelir sesiynau cofleidio prynhawn gan Mrs Rudd yng Nghylch Cwtsh y Lawnt. Mae'r broses lapio yn dechrau am 11:45am tan ddiwedd y diwrnod ysgol.

Presenoldeb - targed ysgol yw 91% ac roeddem ychydig uwchben na'r targed hwnnw ar ddiwedd tymor yr haf 2024 = 91.13%

MATERION PRESENOLDEB

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion a rhieni yn credu bod presenoldeb o 90% yn dda.

Ydyn nhw'n iawn?

NA

Presenoldeb 90% = 1/2 y dydd wedi'i golli bob wythnos

90% o bresenoldeb dros 5 mlynedd o ysgol = 1/2 blwyddyn ysgol wedi'i cholli

Helpwch ni a'ch plentyn drwy sicrhau bod eu presenoldeb yn parhau i fod tua 95% gan ganiatáu iddynt gyflawni eu potensial llawn.

Targedau i godi presenoldeb:

- Ysgol i anfon negeseuon testun /ffonio rhieni os nad yw'r plentyn yn yr ysgol.
- Llythyrau coch/Melyn/Gwyrdd
- Cyswllt gan yr EWO os yw'r disgybl yn dangos presenoldeb gwael.
- Cysylltwyd â'r gwasanaethau i blant am bresenoldeb gwael iawn.
- Rhaid i rieni ofyn am ffurflenni gwyliau i fynd â phlentyn allan o'r ysgol.
- System wobrwyo ar waith.

Outrun Budget 2023 - 2024

OLAS	OUTTURN BUDGET 2022/2023
EMPLOYEES	£
Teachers	598,739.00
Support Staff	272,359.00
Other Staff related costs	19,134.00
Sub Total	**890,232.00**
PREMISES RELATED	
Building Maintenance	13,288.00
Grounds Maintenance	-
Gas	17,082.00
Electricity	25,491.00
Rates	13,011.00
Water	4,286.00
Cleaning Contract	17,240.00
Cleaning Materials	27.00
Refuse Collection	3,238.00
Insurance	6,485.00
S.Units/H. Driers/C. Hygiene	-
Fire Fixtures	-
CCTV	545.00
Alarms	901.00
Rent (PHS)	1,238.00
Sub Total	**102,832.00**

SUPPLIES & SERVICES	
Computer Costs	3,551.00
Furniture	-
Postage	-
Capitation/Stationary	31,792.00
Medical	176.00
Licences	260.00
Music Support Services	1,587.00
Telephone Charges	3,059.00
Photocopying	7,119.00
Transport Hire / Swimming	5,246.00
Uniform/Protective clothing	-
Activities / Trips	-
Long Service Award	-
Exam Fees	-
Foods not resold	4,538.00
PHF	-
Data Protection costs	-
In Year Clawback SEN	-
Sub Total	
SERVICE LEVEL AGREEMENTS	
All Services	
SCHOOL DEVELOPMENT PLANS	**866.00**

Outrun Budget 2023 - 2024

TOTAL EXPENDITURE	
INCOME	
Reimbursement School Meals	15,494.00
Supply Compensation	3,120.00
LA Income	-
Devolved funding	27,499.00
Miscellaneous income	10,300.00
Rent	-
Donations	566.00
Grant Funding - EAS	74,843.00
EIG/PDG Income	141,237.00
GTC & other training grants	2,856.00
Insurance	-
LEA Fees	-
Cashiers Over / Under	-
Early Years Funding Retrospective Funding Other	9,474.00
TOTAL INCOME	**285,389.00**
NET EXPENDITURE	**795,960.00**
TOTAL SUR-PLUS/CONTINGENCY	**114,413.58**
TOTAL	**910,373.58**
-	
-	

TOTAL FUNDING FOR	
-	
FUNDING	
Formula Allocation (net of retro. adj)	797,857.69
Retrospective Adjustment from prev yr.	-7,754.57
Total Formula Allocation	*790,103.12*
Total Carried Forward from prev. yr.	*120,270.46*
TOTAL FUNDING	
BUDGET SHORTFALL	



Eisteddfod Cylch 2024







Gwyl Pasg 2024

















Eisteddfod Dawns 2024





Term Dates 2024 - 2025

Autumn Term 2024

- Term starts Monday 2 September 2024
- Half term starts Monday 28 October 2024
- Half term ends Friday 1 November 2024

Term ends Friday 20 December 2024

Spring Term 2025

- Term starts Monday 6 January 2025
- Half term starts Monday 24 February 2025
- Half term ends Friday 28 February 2025

Term ends Friday 11 April 2025

Summer Term 2025

- Term starts Monday 28 April 2025
- Half term starts Monday 26 May 2025
- Half term ends Friday 30 May 2025

Term ends Friday 21 July 2025

Autumn Term 2025

- Term starts Monday 1 September 2025
- Half term starts Monday 27 October 2025
- Half term ends Friday 3 October 2025

Term ends Friday 19 December 2025

